
# Corff Cymeradwyo Draenio Cynaladwy (CCS)

**Cyngor Sir Ceredigion**
**Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**
**Penmorfa**
**Aberaeron**
**SA46 0PA**

## Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

## Atodlen 3 Draenio Cynaliadwy

## Cais Cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i gael Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SuDS (CCS) – Cymru




# Canllawiau mewn perthynas â Chyngor Cyn Gwneud Cais a Chymeradwyaeth Cais Llawn ar gyfer SuDS mewn datblygiadau newydd, yn unol â Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Deddf 2010) yn darparu fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu systemau dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd. Mae ceisiadau cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ai gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SuDS (CCS) yn ofyniad statudol yng Nghymru.

Rhaid i ymgeiswyr lynu wrth y canlynol:

- Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar gyfer Cymru;
- Offerynnau Statudol; a
- Pholisi Awdurdod Lleol

Nodir strwythur ceisiadau'r cynllun SuDS isod:

| | |
|---|---|
| **Canllawiau ar gyfer Gwneud Ceisiadau SuDS i gael Cymeradwyaeth CCS** | *(Dogfen ganllawiau)* |

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Cyn Gwneud Cais** | *(I'w chwblhau a'i dychwelyd)* |
| **Canllawiau ar Gwblhau'r Ffurflen Cyn Gwneud Cais <\\corp.conwy.gov.uk\data\LD\Translators\1 Gwaith Cyfieithu\2018 Conwy\11 Tachwedd 2018\Einir H\Pre-App Form FINAL Version 05_11_18.docx>** - gan gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth benodol sy'n ofynnol i gefnogi'r cais. | *(Canllawiau)* |
| **Ffurflen Cais Llawn** | *(I'w chwblhau a'i dychwelyd)* |
| **Canllawiau ar Gwblhau'r Ffurflen Cais Llawn <\\corp.conwy.gov.uk\data\LD\Translators\1 Gwaith Cyfieithu\2018 Conwy\11 Tachwedd 2018\Einir H\Full App Form FINAL Version 05_11_18.docx>** - gan gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth benodol sy'n ofynnol i gefnogi'r cais. | *(Canllawiau)* |
| **Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth ar gyfer y Manylion sy'n Ofynnol yn ôl yr Amodau** | *(I'w chwblhau a'i dychwelyd)* |

(Defnyddiwch yr hyperddolenni uchod i fynd at y Ffurflenni a'r Canllawiau penodol.)

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n defnyddio'r ffurflenni **Cyn Gwneud Cais** a **Chais Llawn** a ddarperir gan y CCS. **MAE DEFNYDDIO'R FFURFLENNI HYN YN ORFODOL** gan eu bod wedi'u datblygu i sicrhau bod eich cais yn rhoi sylw i'r gofynion statudol ar gyfer SuDS.

Ffurflenni i gael cymeradwyaeth CCS YN UNIG yw'r rhain, ac fe'ch cynghorir hefyd i ymgysylltu'n gynnar, ac yn uniongyrchol, â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) a phob sefydliad perthnasol arall allai fod â diddordeb yn eich cynnig am gynllun SuDS, gan gynnwys ymgyngoreion statudol y CCS a restrir isod:

- Ymgymerwr carthffosiaeth;
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- Yr Awdurdod Priffyrdd;
- Glandŵr Cymru (yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd)
- Ardaloedd Draenio Mewnol (CNC).

Fe'ch cynghorir i gychwyn **trafodaethau ynghylch Cais Cyn Cynllunio** gyda'r ACLl ar y cyfle cyntaf, gan gynnal trafodaethau gyda'r CCS a'r ACLl ar yr un pryd.

Ni ddylai gwaith datblygu gychwyn ar safle hyd nes y rhoddwyd **Cymeradwyaeth Gynllunio** A **Chymeradwyaeth Lawn y CCS**.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion CCS a swyddogion cynllunio am gynnydd a phenderfyniadau mewn perthynas â'r cais cynllunio a'r cais CCS, gan eu bod yn geisiadau ar wahân, ag iddynt ofynion, amserlenni a chyrff cymeradwyo gwahanol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gymryd rhan mewn **trafodaethau Cyn Gwneud Cais** gyda'r CCS wrth gychwyn dylunio eich cysyniad SuDS. Gall **trafodaethau Cyn Gwneud Cais** effeithiol ynghyd â llunio **Prif Gynllun** sicrhau strategaeth rheoli dŵr wyneb a dyluniad cynllun SuDS sy'n gadarn, yn gost effeithiol ac yn hyfyw. Gall CCS eich helpu i bennu'r ateb SuDS gorau posibl ar gyfer eich safle, drwy roi syniad cynnar o'r hyn sy'n cydymffurfio neu ddim yn cydymffurfio â'r **Safonau SuDS Cenedlaethol**.

Darparwch gymaint o wybodaeth dechnegol ag y bo modd i'r CCS i'w alluogi i roi ymateb ystyriol a rhesymegol yn y **cam Cyn Gwneud Cais a'r cam Cais Llawn.** H.y. po fwyaf o wybodaeth a ddarperir yn y **cam Cyn Gwneud Cais,** y mwyaf manwl fydd y cyngor technegol y gellir ei roi.

O ran yr asesiad draenio dŵr wyneb safle-benodol a'r gofynion SuDS, dylid eu hintegreiddio gyda'r **Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA)**, a dylid darparu **Adroddiad Draenio Llifogydd a Dŵr Wyneb** i'r ACLl a'r CCS.

Gyda sylw penodol i'r **Ffurflen Cyn Gwneud Cais**:

- Gall y CCS godi **ffi Cyn Gwneud Cais**;
- I sicrhau **Cais Dilys**, <u>DYLID</u> ateb bob cwestiwn ar y ffurflen, a dylid darparu cymaint o wybodaeth ategol gychwynnol ag y bo modd fel y nodir yn y **Canllawiau ar Gwblhau'r Ffurflen Cyn Gwneud Cais**;
- Dylai eich ymateb i gwestiynau adlewyrchu gofynion penodol y Safonau Cenedlaethol Statudol;
- Ar ôl i'ch ffurflen gais, ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol, gael ei chyflwyno'n gywir i'r CCS, bydd yn cael ei **dilysu**;
- Os ystyrir ei fod yn **Gais Dilys**, bydd eich cyflwyniad yn cael ei asesu'n dechnegol, a bydd swyddog CCS yn cysylltu â chi i gychwyn **trafodaethau Cyn Gwneud Cais**;
- Nid oes yna unrhyw amserlen statudol mewn perthynas â'r **Broses Gyn Gwneud Cais** . Mae hyn yn ei gwneud yn bosib treulio cyfnod priodol o amser yn trafod, yn datblygu ac yn cytuno ar eich cynigion o ran dyluniad eich cynllun SuDS (o'r cysyniad cynnar i'r dyluniad terfynol), ynghyd â materion cysylltiedig eraill, gyda swyddogion CCS, a hyn oll cyn cyflwyno eich Cais Llawn;
- I alluogi **trafodaethau Cyn Gwneud Cais** cynhyrchiol, mae'n bwysig eich bod yn darparu cymaint o wybodaeth dechnegol gychwynnol ag y gallwch chi mor fuan ag y bo modd yn y broses ddatblygu. Bydd hyn yn helpu cychwyn trafodaethau "penodol i'r datblygiad" ynghylch: pennu nodweddion y safle a'r datblygiad, is-ddalgylchoedd a llwybrau llif dŵr wyneb, ynghyd â dyluniad y cysyniad cyffredinol ac ati;

- Dylid cyfeirio at y dogfennau statudol a restrir yn y canllawiau hyn o'r cychwyn, a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i hyfywedd y safle o ran derbyn cynllun SuDS priodol, cyn cyflwyno ffurflen **Cyn Gwneud Cais**; a
- Dylid cynnal yr holl drafodaethau technegol ac annhechnegol gyda'r CCS fel rhan o'r **cyfnod Cyn Gwneud Cais**, gan mai dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd y CCS yn cysylltu â chi yn ystod ei asesiad o Gais Llawn am Gynllun SuDS.

Gyda sylw penodol i'r **Cais Llawn**:

- I sicrhau **Cais Dilys**, RHAID ateb bob cwestiwn ar y ffurflen, a RHAID cyflwyno'r HOLL ddeunydd ategol fel y nodir yn y **Canllawiau ar Gwblhau'r Ffurflen Cais Llawn** (neu fel y cytunwyd fel arall gyda'r CCS);
- Dylai eich ymateb i gwestiynau fod yn gynhwysfawr ac adlewyrchu gofynion penodol y Safonau Cenedlaethol Statudol;
- Ar ôl cyflwyno eich ffurflen gais ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol i'r CCS, bydd yn cael ei **dilysu**;
- **Sylwch: Os na chafodd y cwestiynau eu hateb fel y nodir ar y ffurflen ac yn ôl y gofynion uchod, bydd eich cais yn cael ei wrthod yn awtomatig;**
- Os ystyrir ei fod yn **gais dilys**, bydd eich cyflwyniad yn cael ei asesu'n dechnegol gan y CCS;
- Ar ôl derbyn **Cais Llawn am Gynllun SuDS**, bydd y CCS yn gwneud penderfyniad yn ei gylch ar sail y wybodaeth dechnegol ysgrifenedig a'r wybodaeth arall a gyflwynwyd gyda'r cais llawn yn unig;
- Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd y CCS ond yn cysylltu â chi yn ystod ei asesiad o **Gais Llawn am Gynllun SuDS**, felly mae'n hanfodol i bob parti ymdrin ag unrhyw ansicrwydd neu broblemau technegol fel rhan o'r broses Cyn Gwneud Cais, a chyn cyflwyno'r **Cais Llawn**;
- Yn unol â'r gofynion statudol, bydd y CCS yn eich hysbysu am ganlyniad ei asesiad technegol o'ch **Cais Llawn**; a
- Gellir **Cymeradwyo Cais Llawn** yn amodol ar **Amodau** neu gellir ei **Wrthod**, ac yn yr achos hwnnw fe'ch hysbysir am y rhesymau pam.

Dylai ymgeiswyr gyfeirio at ddogfennau cenedlaethol a lleol allweddol cyn ac yn ystod y broses o ddylunio'r cysyniad, llunio'r dyluniad manwl, ceisio cymeradwyaeth y CCS a'r ACLl, y gwaith adeiladu ac wrth fabwysiadu, gweithredu a chynnal a chadw'r cynllun SuDS. Mae'r rhain yn cynnwys:

  - Sustainable Drainage Systems (SuDS) Manual - (CIRIA C753)
  - Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd
  - Development and Flood Risk Guidance for the Construction Industry – (CIRIA 624)

- Rainfall Run-off Management for Developments – Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd sc030219
- Planning for SuDS - Making it Happen CIRIA C687
- Site Handbook for the Construction of SuDS - CIRIA C698
- Guidance on the Construction of SuDS 2017 (C768)
- BS 8582:2013 Code of practice for surface water management for development sites
- Infiltration Drainage - Manual of Good Practice (CIRIA R156)
- BRE Soakaway Design (DG 365 – 2016)
- Sewers for Adoption 7fed Argraffiad
- Sewers for Adoption 8fed Argraffiad (Fersiwn Cyn Gweithredu))
- Deddf Draenio Tir 1991
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents>
- (Pob CCS unigol i ychwanegu canllawiau lleol)

Fe'ch cynghorir hefyd i roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau arferion gorau ar gyfer SuDS ynghyd â'r wybodaeth a gynhwysir ar wefannau CIRIA, Susdrain a SuDS Wales.

Pob CCS unigol i gynnwys Cwestiynau Cyffredin